Strategaeth Ariannol Tymor Canolig 2026/27-2029/30

1. Cyflwyniad

Bargen Twf a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Sefydlwyd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) fel cyd-bwyllgor yn 2018 fel y cytunwyd mewn Cytundeb Llywodraethu cam cyntaf, a gymeradwywyd gan yr holl bartneriaid (6 awdurdod lleol a 4 partner addysg) ym mis Mehefin a Gorffennaf 2018.

Cadarnhaodd Llywodraeth y DU ddyraniad o £120 miliwn ar gyfer y Fargen Twf yng Nghyllideb y Canghellor a gynhaliwyd ar 29 Hydref 2018. Derbyniwyd cadarnhad gan Lywodraeth Cymru y byddent yn cyfateb i'r swm hwn ar 21 Rhagfyr 2018. Roedd hyn yn golygu bod cyllideb o £240 miliwn yn ei le i gyflawni prosiectau o fewn y Fargen Twf. Y Cyd-bwyllgor oedd y corff allweddol i oruchwylio'r Fargen Twf ac i gynrychioli buddiannau'r partïon a'i randdeiliaid. Roedd BUEGC hefyd yn gyfrifol am fonitro cynnydd y prosiect a rheoli dimensiynau gwleidyddol y Fargen Twf.

Yn ogystal, byddai BUEGC hefyd yn goruchwylio'r Strategaeth Twf Ranbarthol a gwneud yr holl benderfyniadau angenrheidiol i hwyluso a gweithredu ei chyflawni.

Cymeradwywyd Dogfen Gynnig, a oedd yn nodi pecyn o fesurau ac ymyriadau beiddgar i gyflawni twf economaidd cynaliadwy a chynhwysol yng Ngogledd Cymru, gan yr holl bartneriaid ym mis Medi a Hydref 2018. Roedd y ddogfen hon yn nodi 16 o brosiectau i'w hariannu drwy'r Fargen Twf, gyda manylion am gostau, canlyniadau ac amserlen ar gyfer cyflawni wedi'u cynnwys. Ar y pryd, cyfanswm y swm a dargedwyd o'r Fargen Twf oedd £334m o gyllid cyfalaf a £8m o gyllid refeniw.

Sefydlwyd y Swyddog Rheoli Portffolio (PMO) i reoli'r Fargen Twf ar ran y partneriaid, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Portffolio.

Cyd-bwyllgor Corfforedig

Mae Rhan 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, Cydweithio gan Brif Gynghorau, yn nodi pwerau Llywodraeth Cymru i wneud rheoliadau mewn perthynas â Chyd-bwyllgorau Corfforedig yng Nghymru. Yn benodol, mae rheoliadau 11 i 14 o Reoliadau Cyd-bwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (Cymru) 2021 yn amlinellu'r canlynol fel swyddogaethau CBC Gogledd Cymru:

Llesiant Economaidd. Mae'r swyddogaeth llesiant economaidd yn cael ei rhoi i CBC Gogledd Cymru fel y nodir yn adran 76 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Gall cyd-bwyllgor corfforedig sydd wedi cael y swyddogaeth llesiant economaidd wneud unrhyw beth y mae'n ystyried ei fod yn debygol o hyrwyddo neu wella lles economaidd ei ardal.

Datblygu polisïau trafnidiaeth. Swyddogaeth datblygu polisïau ar gyfer hyrwyddo ac annog trafnidiaeth ddiogel, integredig, effeithlon ac economaidd i, oddi yno ac o fewn eu hardal ac i ddatblygu polisïau ar gyfer

gweithredu Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn eu hardal, mewn perthynas ag ardal pob cyngor cyfansoddol, i'w harfer gan CBC y Gogledd, ac nid gan y cyngor cyfansoddol.

Swyddogaethau cynllunio strategol. Mae gan CBC y Gogledd y swyddogaeth o baratoi cynllun datblygu strategol.

Mae rheoliad 14 yn nodi, – (1) caiff CBC y Gogledd wneud unrhyw beth (a) i hwyluso, neu (b) sy'n gysylltiedig neu'n ffafriol i, arfer ei swyddogaethau o dan y Rheoliadau hyn neu unrhyw ddeddfiad arall. Mae hyn yn cynnwys (a) ysgwyddo gwariant; (b) codi ffioedd; (c) caffael neu waredu eiddo neu hawliau.

Trosglwyddo Bargen Twf

Ar 1 Ebrill 2025, trosglwyddwyd swyddogaethau Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i Gyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd o dan ddyletswydd statudol CBC ar gyfer llesiant economaidd.

Ariannu'r Cyd-bwyllgor Corfforedig

Nid oes gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig unrhyw bwerau codi trethi.

Mae costau refeniw y Fargen Twf yn cael eu hariannu gan gyfuniad o sleisen uchaf o'r grant cyfalaf a chyfraniadau partner. Yn yr un modd, mae costau refeniw sy'n gysylltiedig â Pharthau Buddsoddi yn cael eu hariannu gan grant.

Ar gyfer pob swyddogaeth ac eithrio'r Bargen Twf a'r Parthau Buddsoddi, ar gyfer pob blwyddyn ariannol rhaid i CBC y Gogledd gyfrifo ei ofyniad refeniw net y gellir ei briodoli i—

(a) ei swyddogaethau cynllunio strategol a

(b) ei swyddogaethau eraill.

Mae'r gofynion refeniw net sy'n ymwneud â'r swyddogaethau cynllunio strategol (gan gynnwys cyfran briodol o gostau gweinyddol a gorbenion eraill) yn cael eu dosrannu i'r Cynghorau Cyfansoddol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, tra bod y gofyniad refeniw net ar gyfer pob swyddogaeth arall (ac eithrio cynllunio strategol, y Fargen Twf a'r Parthau Buddsoddi) yn cael eu dosrannu i'r Cynghorau Cyfansoddiadol. Rhaid cytuno ar ddyraniadau yn unfrydol.

Felly, mae'r gyllideb yn cael ei gosod yn flynyddol ac, ar wahân i'r materion penodol a ddisgrifir uchod, nid oes mecanwaith cyllido cynaliadwy hirdymor lle mae Uchelgais Gogledd Cymru yn cael ei ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru.

Pam mae angen y SATC nawr

Fel sefydliad y mae ei swyddogaethau yn parhau i gael eu datblygu a'u harwain gan Lywodraeth Cymru, rhaid i Uchelgais Gogledd Cymru sicrhau bod ganddo'r adnoddau angenrheidiol ar waith i gyflawni ei ddyletswyddau a'i swyddogaethau statudol. Er bod y gyllideb yn cael ei gosod bob blwyddyn, dim hwyrach na diwedd mis Ionawr, rhaid bod dull strategol o ystyried gallu'r sefydliad i barhau i weithredu yn ôl yr angen. Mae hyn nid yn unig yn caniatáu i Uchelgais Gogledd Cymru fod yn glir ynglŷn â'i gyfeiriad, ond hefyd yn dryloyw ac yn agored gyda'r cyngor cyfansoddiadol ac awdurdod y parc cenedlaethol.

2. Pwrpas y SATC

Mae canllawiau CBC Llywodraeth Cymru yn nodi bod CBCau yn gyrff cyhoeddus ac yn rhan o deulu llywodraeth leol a dylent ddangos llywodraethu da o'r cychwyn cyntaf. Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig (SATC) yn cynnig egwyddorion wedi'u sefydlu ar Ddisgwyliadau CIPFA a Llywodraeth Cymru ynghylch llywodraethu da, cynaliadwyedd ariannol, rheoli risg, stiwardiaeth ac atebolrwydd.

Mae'r strategaeth yn nodi sut y bydd y CBC yn gwneud dewisiadau ariannol cynaliadwy, yn rheoli ansicrwydd ac yn cynnal y gallu i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol a'i raglenni rhanbarthol y cytunwyd arnynt dros gyfnod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) presennol. Mae'n gosod y fframwaith strategol, archwaeth risg, rheolau penderfynu a disgwyliadau llywodraethu y mae'r CATC yn cael ei baratoi, ei herio, ei gymeradwyo a'i fonitro. Bydd y strategaeth yn cael ei hadolygu'n flynyddol a'i chyflwyno yn unol â'r cynllun ariannol.

Bwriad y Strategaeth yw:

- cefnogi gwneud penderfyniadau ariannol cynaliadwy;
- integreiddio cynllunio cyllid, gweithlu, risg a pherfformiad;
- gwahaniaethu'n glir rhwng gweithgarwch a ariennir gan ardoll a gweithgarwch a ariennir gan raglen;
- cefnogi gwneud penderfyniadau tryloyw gan Aelodau a chyrff sy'n talu ardoll.

Perthynas â'r CATC

SATC: fframwaith strategol	CATC: cynllun ariannol meintiol
Gosod egwyddorion, amcanion, archwaeth risg, rheolau penderfynu a llywodraethu.	Yn dangos rhagolygon incwm, gwariant, ardoll, cronfeydd wrth gefn, llif arian, cyfalaf a benthyca ar draws 2026/27-2029/30.
Yn esbonio sut y bydd y CBC yn asesu gwytnwch ac yn gwneud dewisiadau.	Yn dangos canlyniadau ariannol rhagdybiaethau cyfredol a dewisiadau arfaethedig.
Dylai aros yn gymharol sefydlog, yn amodol ar adolygiad blynyddol.	Dylid ei adnewyddu'n flynyddol a'i gyflwyno yn unol â phrosesau cynllunio ariannol.

3. Egwyddorion strategol

1. Dewisiadau cynaliadwy

Egwyddor: Bydd y CBC yn asesu penderfyniadau dros yr amserlen gynllunio lawn, gan alinio adnoddau ac ymrwymiadau â chyfrifoldebau statudol a blaenoriaethau rhanbarthol y cytunwyd arnynt.

Mae'n egwyddor sylfaenol bod yn rhaid i unrhyw sefydliad awdurdod lleol statudol fel Uchelgais Gogledd Cymru allu gosod cyllideb gytbwys. Felly, mae deddfwriaeth ariannol llywodraeth leol arwyddocaol yr un mor berthnasol i'r CBC ag y mae i brif gyngor, yn enwedig Adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ac Adran 114 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, ymhlith eraill. Fel Cyd-bwyllgor Corfforedig, mae Uchelgais Gogledd Cymru yn gorff codi ardoll ac nid oes ganddo unrhyw bwerau codi trethi ei hun.

Prif ffynonellau incwm refeniw y Swyddfa Rheoli Portffolio, sy'n gweinyddu Bargen Twf Gogledd Cymru, yw "haen uchaf" o 2.15% o'r grantiau cyfalaf o £240 miliwn a ddarperir gan Lywodraethau'r DU a Chymru, a chyfraniadau partner y cytunwyd arnynt gan chwe chyngor cyfansoddol a phedwar sefydliad addysg bellach ac uwch.

Yn yr un modd, mae costau refeniw sy'n gysylltiedig â Pharthau Buddsoddi yn cael eu hariannu gan grant trwy "haen uchaf" gweinyddol y cytunwyd arno.

Mae swyddogaethau eraill y Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cael eu hariannu'n bennaf trwy godi ardoll ar y chwe chyngor cyfansoddol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Yn ôl statud, rhaid cytuno ar y gyllideb a'i dosrannu i'r cyrff sy'n talu ardoll erbyn 31 Ionawr cyn dechrau'r flwyddyn ariannol berthnasol. Fel rhan o'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig, bydd Uchelgais Gogledd Cymru yn dryloyw gyda'r cyrff sy'n talu ardoll a bydd yn cynnal trafodaethau ar lefel aelodau a swyddogion ar ei ofynion ariannu.

Bydd datblygu'r gyllideb yn broses ailadroddus, gyda'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Cyd-bwyllgor Corfforedig yn cael eu hysbysu'n rheolaidd yn ystod y broses gyllidebu am lefel debygol yr ardoll, ac unrhyw ymrwymiadau ariannol newydd y bydd angen eu hystyried.

Bydd y strategaeth yn agored ar y gofynion gwariant, ac o ganlyniadau peidio â chytuno ar gyllid.

Fel rhan o'r dyletswyddau statudol, os bydd popeth arall yn methu, rhaid i'r Swyddog Adran 151 gyflwyno adroddiad o dan Adran 114 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 ("Hysbysiad Adran 114" os yw'n o'r farn bod y Cyd-bwyllgor Corfforedig neu berson sy'n dal unrhyw swydd neu gyflogaeth o dan y CBC—

> (a) sydd wedi gwneud neu sydd ar fin gwneud penderfyniad sy'n cynnwys neu a fyddai'n golygu i'r awdurdod ysgwyddo gwariant sy'n anghyfreithlon,
>
> (b) sydd wedi cymryd neu ar fin cymryd camau a fyddai, pe bai'n cael ei ddilyn i'w ddiwedd, yn anghyfreithlon ac yn debygol o achosi colled neu ddiffyg ar ran y CBC, neu
>
> (c) sydd ar fin cofnodi eitem o gyfrif y mae ei chofnodi yn anghyfreithlon.

2. Cyllid gwydn a mantolen

Egwyddor: Bydd y CBC yn rheoli incwm, cronfeydd wrth gefn, llif arian, trysorlys, benthyca ac wrth gefn fel system integredig o wydnwch ariannol.

Bydd y strategaeth ariannol ar gyfer y Fargen Twf yn parhau i gymryd golwg oes gyfan hyd at ddiwedd y Fargen yn 2034/35., a bydd rhagolygon ariannol y gwariant cyfalaf hyd at ddiwedd y Fargen yn 2034/35 yn cael eu hadolygu'n barhaus. Fel sydd wedi digwydd ers cychwyn y fargen twf, bydd y trosolwg oes gyfan hwn yn cynnwys trosolwg o broffiliau gwariant cyfalaf, cronfeydd wrth gefn disgwyliedig, llif arian ac unrhyw ofynion benthyca cysylltiedig, amseriad taliadau grant, treth annomestig a gedwir, a'r gofynion refeniw cysylltiedig i gefnogi'r Swyddfa Rheoli Portffolio. Bydd trefniadau clir ar waith ar gyfer delio â diwedd y Fargen Twf, a ddangosir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig.

Yn yr un modd, bydd Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam yn cael ei ariannu drwy grant penodol gan y llywodraeth, gydag amlen wariant refeniw clir. Bydd y cyllid hwn hefyd yn cael ei adolygu'n gyson i sicrhau nad yw cyfanswm y gwariant refeniw yn fwy na'r adnoddau sydd ar gael.

O ran swyddogaethau eraill Uchelgais Gogledd Cymru, mae'r rhain yn faterion a ariennir yn bennaf gan yr ardoll a godwyd ar awdurdodau cyfansoddol. Yn unol ag ymrwymiad i dryloywder, bydd y defnydd o'r ardoll yn cael ei gyfathrebu'n glir i'r awdurdodau cyfansoddol, a dylai'r rhesymeg y tu ôl i ofynion cyllideb Uchelgais Gogledd Cymru fod yn ddangosadwy.

3. Portffolio cyflawnadwy ac adnoddau corfforedig

Egwyddor: Bydd y CBC yn sicrhau bod gallu sefydliadol, gallu, trefniadau llywodraethu ac adnoddau ariannol yn datblygu yn unol â'i gyfrifoldebau statudol sy'n ehangu, ei bortffolio rhaglenni a'i rôl fel corff cyhoeddus corfforedig.

Mae Uchelgais Gogledd Cymru yn parhau i ddatblygu wrth iddo gael dyletswyddau a chyfrifoldebau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. O ganlyniad, bydd adolygiad cyson o ofynion capasiti'r sefydliad i sicrhau y gall barhau i gyflawni'r swyddogaethau hyn. Mae hyn yn cynnwys yr angen i'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig gynnwys trosolwg gonest a chlir o'r angen i ddatblygu Uchelgais Gogledd Cymru fel corff awdurdod lleol statudol. Bydd yr adnoddau hyn yn cynnwys yr angen am strwythurau staffio digonol a chyfiawnhau a sefydlu'r strwythurau llywodraethu sy'n ofynnol ar gyfer sefydliad o'r fath, o ran arfer da ac fel sy'n ofynnol gan statud.

Mae hyn yn cynnwys sicrhau cefnogaeth ddigonol i'r swyddogion statudol a'u timau.

Felly, bydd adolygiadau rheolaidd o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys asesiad o strwythurau staffio sy'n symud ymlaen am y tair blynedd nesaf.

4. Llywodraethu a phartneriaeth dryloyw

Egwyddor: Bydd y CBC yn gwneud rhagdybiaethau, risgiau, dewisiadau ac atebolrwydd yn weladwy, gan gefnogi penderfyniadau gwybodus yr Aelodau ac ymgysylltu'n gynnar â chyrff sy'n talu ardoll.

Wrth i Uchelgais Gogledd Cymru aeddfedu fel sefydliad dros dymor y Strategaeth Ariannol hon, bydd y broses gyllidebu hefyd yn datblygu. Bydd adolygiadau rheolaidd o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, gydag ystyriaeth ffurfiol gan yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (ar gyfer trosolwg annibynnol) a'r Cyd-bwyllgor Corfforedig llawn (i'w mabwysiadu'n ffurfiol) bob hydref, yn caniatáu i'r broses gyllidebu fod yn broses wirioneddol ailadroddus, gyda'r darlun sy'n datblygu yn glir i'r holl aelodau erbyn gosod y gyllideb ffurfiol ym mis Ionawr.

Mae hyn yn cynnwys bod yn glir o fewn yr CATC o'r rhagdybiaethau a wnaed wrth ddatblygu'r gofynion cyllideb.

4. Pensaernïaeth Cynllunio Ariannol

Cefnogir yr SATC gan Gynllun Ariannol Tymor Canolig sy'n cwmpasu'r cyfnod 2026/27-2029/30.

Mae'r CATC yn cyflwyno trosolwg o'r canlynol mewn un golwg o sefyllfa ariannol tymor canolig y CBC:

- gweithgaredd craidd a ariennir gan ardoll;
- swyddogaethau statudol;
- gwariant rhaglen;
- cronfeydd wrth gefn;
- llif arian;
- gofynion benthyca;
- goblygiadau'r gweithlu.

5. Rhagdybiaethau a Senarios

Bydd y SATC yn cael ei gefnogi gan ddatblygu cofrestr rhagdybiaethau rheoledig yn ystod 2026/27.

Wrth ddatblygu'r CATC, gwnaed nifer o ragdybiaethau sy'n cael eu hegluro yn y ddogfen. Dylai'r rhagdybiaethau allweddol hyn gynnwys chwyddiant, dyfarniadau cyflog, cyllid grant, costau benthyca, proffiliau cyflawni rhaglenni a chyfrifoldebau CBC newydd.

6. Archwaeth Risg a Rheolau Penderfynu

Mae gan y CBC archwaeth isel am:

- gwariant a all fod *yn ultra vires;*
- gwariant cylchol heb gefnogaeth;
- disbyddu cronfeydd wrth gefn cyffredinol islaw'r trothwy a argymhellir gan y Swyddog Cyllid Statudol heb strategaeth ailgyflenwi;
- ymrwymo i wariant newydd ar ôl i'r gyllideb gael ei chymeradwyo, gan arwain at yr angen am gyllideb atodol o fewn y flwyddyn;
- penderfyniadau ariannol sy'n bygwth cyflawni statudol.

Mae gan y CBC archwaeth cymedrol am:

- buddsoddiad heb ddiwydrwydd dyladwy digonol
- risg cyflawni rhaglenni a ariennir yn allanol;
- benthyca a reolir lle gellir dangos fforddiadwyedd.

7. Llywodraethu ac Atebolrwydd

Mae'r Strategaeth yn cydnabod yr holl gyrff sy'n talu ardollau a phartneriaid statudol perthnasol ac yn ceisio cefnogi gwneud penderfyniadau tryloyw a gwybodus.

8. Monitro a Gwerthuso

Bydd y SATC yn cael ei fonitro drwy:

- monitro cyllideb chwarterol;
- adrodd gwytnwch chwarterol;
- adrodd risg;
- adrodd ar berfformiad y rhaglen.

9. Asesiad Gwydnwch Ariannol Blynyddol

Bydd y Swyddog Cyllid Statudol yn darparu asesiad blynyddol o wydnwch ariannol ochr yn ochr â'r CATC.

Dylai'r asesiad hwn ystyried:

- cynaliadwyedd y sefyllfa refeniw;
- digonolrwydd cronfeydd wrth gefn;
- fforddiadwyedd benthyca;
- cyllid a dibyniaeth ar grantiau;
- cynaliadwyedd y gweithlu;
- fforddiadwyedd rhaglenni a risg cyflawni;
- effeithiolrwydd llywodraethu a rheolaethau ariannol.

10. Casgliad

- Bydd y SATC yn cael ei adolygu'n flynyddol ochr yn ochr â'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig.
- Bydd y cyfnod cynllunio ariannol yn cael ei gyflwyno fel rhan o'r broses flynyddol o osod cyllideb a chynllunio ariannol.
- Gellir adolygu'r Strategaeth yn gynharach pan fo newid sylweddol mewn trefniadau cyllido, cyfrifoldebau statudol, trefniadau llywodraethu neu amlygiad i risg ariannol.
- Bydd y Swyddog Cyllid Statudol yn cynghori ar unrhyw ddiwygiadau sy'n ofynnol i sicrhau aliniad parhaus â'r CATC a deddfwriaeth, canllawiau a safonau proffesiynol perthnasol.